Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

Tymor
yr Hydref
2021

# Cylchlythyr Tiwtoriaid

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

# Gair gan Helen

## Croeso i'r cylchlythyr i diwtoriaid.



Llun: iStock

Ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd, mae wedi bod yn braf gweld cymaint o ddysgwyr yn dychwelyd i ddysgu neu'n dechrau dysgu o'r newydd gyda ni. Roedd hi'n hyfryd cael cwmni dros 120 o ddysgwyr ar Zoom i wrando ar Ifor ap Glyn yn y wers flasu genedlaethol gafodd ei chynnal ddechrau Medi.

Un o lwyddiannau'r haf oedd y noson Whodunnit gafodd ei threfnu yn ystod yr Eisteddfod AmGen felly diolch am annog eich dysgwyr i gymryd rhan. Roedd safon cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn eleni yn arbennig o uchel ac mae modd gwrando ar sgwrs rhwng yr enillydd, David Thomas a'r gyflwynwraig Hanna Hopwood Griffiths yma. Recordiwyd y cyfweliad fel rhan o sesiynau Sgwrs dros Baned yn yr Eisteddfod, ac mae modd gwrando ar y siaradwyr gwadd eraill yma.

Mae cynllun Siarad wedi ail gychwyn a byddai'n wych petai modd i chi annog dysgwyr sydd ar lefel Canolradd+ i ymuno â'r cynllun. Dros yr haf, cynhaliwyd holiadur barn a daeth i'r amlwg bod siaradwyr newydd a'r gwirfoddolwyr yn elwa'n fawr o'r cynllun.

Dych chi wedi cael cipolwg ar deitlau diweddaraf cyfres Amdani? Mae nifer o lyfrau newydd wedi cael eu cyhoeddi dros yr haf ac mae rhestr lawn ohonynt ar y safle. Felly ewch draw i bori trwyddynt ac annog eich dysgwyr i wneud yr un peth.

Dymuniadau gorau i chi gyda gweddill y tymor. Mae'r Pwyllgor Cefnogi Dysgwyr wrthi'n cynllunio rhaglen o weithgareddau ar gyfer y flwyddyn, felly dw i'n mawr obeithio y gwelaf i chi yn rhai o'r rheiny. Cofiwch fod pob croeso i chi gysylltu â mi ar unrhyw adeg gyda chwestiynau neu sylwadau.

Diolch yn fawr,

**Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**

# Adolygiad Cyflym

Ym mis Awst fe gyhoeddodd y Llywodraeth ei Hadolygiad Cyflym o'r Ganolfan. Mae'r Adolygiad yn argymell newidiadau posib i'n cylch gwaith, gan gynnwys datblygu'r Ganolfan yn hwb ar gyfer arloesi addysgol. Mae ehangu'r ddarpariaeth i gynnwys pobl 16 – 18 oed sydd wedi astudio'r Gymraeg fel pwnc mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn argymhelliad cyffrous arall. Darllenwch yr Adolygiad Cyflym yma.

# Adroddiad Estyn

Ro'n ni'n falch, hefyd, o dderbyn adroddiad cadarnhaol Estyn ar y Ganolfan yn gynharach eleni. Nododd Estyn ein bod yn cyfrannu'n effeithiol at nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a'n bod ni'n llais cenedlaethol, dylanwadol i'r sector. Roedd yr adroddiad hefyd yn canmol arweiniad cadarn a phendant y Ganolfan a'r ffordd mae'n cadw budd dysgwyr yn ganolog i'w holl weithgarwch. Darllenwch adroddiad Estyn yma.

# Adnoddau

Mae Fersiwn 2 lefel Mynediad bellach ar gael. Mae'r canllawiau wedi cael eu hailysgrifennu i ymgorffori'r dulliau dysgu gwahanol sy gyda ni erbyn hyn ac mae cyflwyniad PwerBwynt ar gael ar gyfer pob lefel. Mae'r cyfan ar gael yn adran y Tiwtoriaid ar y safle.







# Duolingo a SaySomethinginWelsh (SSIW)



Dros yr haf, mae'r Ganolfan wedi ffurfio partneriaethau cyffrous gyda Duolingo a SaySomethinginWelsh.  Mae Duolingo yn rhyngwladol am drosglwyddo'r cyfrifoldeb am gadw cynnwys y cwrs yn gyfredol i'r Ganolfan, ac mae 2,000 o ddysgwyr y Ganolfan am gael y cyfle i gael pecyn SSIW am ddim i ategu eu dysgu.  Os dych chi'n dysgu cwrs Mynediad, mae'n bosib iawn bod rhai o'ch dysgwyr chi wedi derbyn y cynnig hwn.

## Gwers Gyfoes Bywydau Duon o Bwys



Llun o'r cyflwynydd, Seren Jones, sy'n rhannu ei phrofiadau yn y wers gyfoes.

Mae Gwers Gyfoes Bywydau Duon o Bwys, gafodd ei chyhoeddi y llynedd, wedi cael ei diweddaru.  Tybed a fyddai modd i chi ddefnyddio'r deunyddiau cyn diwedd y mis gan mai mis Hydref ydy Mis Hanes Pobl Dduon?  Gall y wers fod yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n newydd i lefel Uwch eleni. Dyma'r ddolen ar gyfer y deunyddiau: [Gwersi Cyfoes | Dysgu Cymraeg]

# Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg Radio Cymru

**Ddydd Sul 10 Hydref bydd Radio Cymru yn dechrau [wythnos arbennig]() o raglenni ac eitemau sy'n dathlu dysgu Cymraeg. Dyma fydd uchafbwyntiau'r wythnos;**

- Cyfres o raglenni dogfen newydd.
- Rhagor o benodau o'r ddrama feicro Enfys gan y Theatr Genedlaethol a BBC Cymru Fyw.
- Dysgwr fydd yn cynnal Yr Oedfa.
- Dysgwr fydd gwestai Beti a'i Phobol.
- Bydd ymgeiswyr rownd derfynol Dysgwr y Flwyddyn ar raglen Hanna Hopwood Griffiths, Gwneud Bywyd yn Haws.

Fel datblygiad cyffrous eleni, bydd y Ganolfan yn cynnal dau gyfarfod Zoom yn ystod yr wythnos:







- **Nos Lun, 11 Hydref am 7yh:**

  Cyfle i ddod i adnabod rhai o gyflwynwyr mwyaf poblogaidd Radio Cymru – Shân Cothi, Ifan Jones Evans a Jennifer Jones.

- **Nos Wener, 15 Hydref am 6yh:**

  Mewn cydweithrediad â'r Theatr Genedlaethol, cyfle i wylio pob pennod o'r ddrama feicro Enfys a holi un o'r actorion.

# Cylchgrawn Hwyl yr Haf




Dych chi wedi darllen cylchgrawn Hwyl yr Haf? Cylchgrawn digidol i ddysgwyr ydy Hwyl yr Haf ac mae modd darllen copi ar ein gwefan. Mae Hwyl yr Haf yn llawn erthyglau, cyfweliadau ac eitemau diddorol am arddio, coginio a chadw'n heini. Mae hefyd yn cynnwys cyfweliadau gyda'r actores Rakie Ayola, (sydd i'w gweld ar glawr y cylchgrawn, chwith) y cogydd Nerys Howell a'r cyflwynydd radio Ifan Jones Evans. 'Dyn ni wedi rhannu'r cylchgrawn ar y cyfryngau cymdeithasol a gyda'r swyddogion marchnata, ond gorau oll os y medrwch chi rannu'r ddolen hon gyda'ch dysgwyr a'u hannog i ddarllen y cylchgrawn.

## Helo Blod

Dych chi wedi clywed am Helo Blod? Gwasanaeth ydy Helo Blod sy'n cynnig cyngor ymarferol, arweiniad a chymorth i fusnesau ddefnyddio mwy o Gymraeg. Mae Helo Blod yn fodlon gwirio testun Cymraeg neu gyfieithu hyd at 500 gair i'r Gymraeg, bob mis, am ddim. Felly os oes gennych chi ddysgwyr sy'n rhedeg eu busnesau eu hunain, cofiwch sôn wrthynt am wasanaeth Helo Blod.

Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

Tymor
y Gaeaf
2022

# Cylchlythyr Tiwtoriaid



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn

# Gair gan Helen

## Croeso i'r cylchlythyr i diwtoriaid.

Blwyddyn newydd dda iawn i chi gyd.  Gobeithio i chi gael cyfle i gymryd seibiant dros gyfnod y Nadolig a bod y tymor newydd wedi dechrau yn dda. 'Dyn ni'n edrych ymlaen at rannu rhai o'r digwyddiadau a'r cynlluniau sydd ar y gweill gennym dros y cyfnod nesaf gyda chi.

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi am hyrwyddo'r holl ddigwyddiadau rhithiol cenedlaethol gafodd eu cynnal cyn y Nadolig.  Roedd yn braf gweld cymaint yn bresennol yn y sesiynau a chael adborth cadarnhaol gan y partneriaid fuodd ynghlwm â'r digwyddiadau. Roedd y digwyddiad olaf, sef y noson Whodunnit, yn goron ar y cyfan felly diolch i chi am sicrhau cefnogaeth dda i hwnnw hefyd.

Gobeithio y cawn ni gefnogaeth gystal i Amdani: Gŵyl Ddarllen Dysgu Cymraeg fydd yn cael ei chynnal rhwng 28 Chwefror – 4 Mawrth.  Fel rhan o'r ŵyl rithiol, mae [cystadleuaeth ysgrifennu stori] ar gyfer dysgwyr ar bob lefel. Bydd y gystadleuaeth yn cau ar 31 Ionawr.  Mae mwy o fanylion ar gael isod ac mae hysbyseb sy'n hyrwyddo'r gystadleuaeth wedi'i hanfon at y Swyddogion Marchnata.

I gloi, hoffwn eich atgoffa bod croeso i chi alw mewn am sgwrs bob dydd Llun cyntaf y mis am 2 o'r gloch.  Cysylltwch â fi os dych chi angen y ddolen. Dymuniadau gorau i chi gyda chynlluniau'r tymor a chofiwch fod croeso i chi anfon e-bost ataf os oes gennych chi gwestiwn neu sylw ar unrhyw adeg.

Diolch yn fawr,

**Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**



# Amdani: Gŵyl Ddarllen Dysgu Cymraeg

Bydd Amdani: Gŵyl Ddarllen Dysgu Cymraeg yn digwydd rhwng 28 Chwefror – 4 Mawrth. Cynhaliwyd yr ŵyl rithiol am y tro cyntaf y llynedd a'i bwriad yw dathlu'r gyfres o lyfrau i ddysgwyr, 'Amdani', ac annog dysgwyr i ddefnyddio a mwynhau eu Cymraeg trwy ddarllen ystod o ddeunyddiau gwahanol. Dyma flas o rai o brif ddigwyddiadau'r ŵyl:

- Bore coffi Gŵyl Dewi yng nghwmni David Thomas, Dysgwr y Flwyddyn
- Gig Gŵyl Dewi gan Robat Arwyn
- Gweithdy ysgrifennu creadigol gyda Anni Llŷn
- Clwb darllen yng nghwmni'r awdur Sarah Reynolds
- Ffair lyfrau i rieni gyda Jo Knell o siop Cant a Mil Vintage, Caerdydd. Poster y Ffair lyfrau sydd wedi'i gynnwys ar glawr y cylchlythyr
- Ioga cadair gyda Laura Karadog a Catrin Jones
- Cyhoeddi dwy stori fer newydd i ddysgwyr gan Lleucu Roberts a Pegi Talfryn
- Podlediad, straeon fideo ac erthyglau dyddiol wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr ar Golwg 360

Amdani
Gŵyl Ddarllen Dysgu Cymraeg
Learn Welsh Festival of Reading










Yn ychwanegol, 'dyn ni wedi cyhoeddi cystadleuaeth ysgrifennu i ddysgwyr ar bob lefel mewn partneriaeth â'r Eisteddfod Genedlaethol. Y dyddiad cau ydy 31 Ionawr a bydd y straeon yn cael eu beirniadu gan Lleucu Roberts a Pegi Talfryn, a'r rhai buddugol yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr ŵyl. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi gylchredeg y wybodaeth am y gystadleuaeth ac annog eich dysgwyr i gymryd rhan.

# Hyfforddiant



## Academi

Academi
Datblygu sgiliau'r gweithlu
Dysgu Cymraeg

Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gymryd rhan yn yr hyfforddiant cynwysoldeb. Cofiwch fod nifer o adnoddau ar gael ar dudalen Academi'r safle. Yn eu plith mae hyfforddiant Dyslecsia, Nam Golwg, Nam Clyw a'r adnodd diweddaraf sydd wedi cael ei ychwanegu yw cynghorion Dysgu Cynhwysol. Hoffwn eich annog i ymweld â'r dudalen uchod ar y safle ac mae croeso i chi gysylltu gydag unrhyw sylwadau.




## Arholiadau

'Dyn ni'n falch iawn o fedru adrodd bod niferoedd arbennig o dda wedi cofrestru ar gyfer arholiad Mynediad fis Ionawr. Mi wnaeth 267 o ddysgwyr gofrestru, tua 100 yn fwy nag arfer felly diolch i chi am annog eich dysgwyr. Yn ystod yr haf, y gobaith ydy cynnal arholiadau llawn. Wedi dweud hynny, bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus a bydd pob darparwr yn penderfynu beth sydd orau o dan yr amgylchiadau.



## Cynhadledd Genedlaethol

Bydd y Gynhadledd Genedlaethol yn cael ei chynnal yn rhithiol unwaith eto eleni, a hynny ar 24 Mehefin. Hyderir y bydd modd trefnu cynhadledd wyneb yn wyneb yn 2023.

# Mireinio cyrsiau

Diolch yn fawr iawn i'r rhai hynny ohonoch chi sy wedi ymateb i'r cais am sylwadau ar gwrs Uwch 1. Mae'r gwaith mireinio'n mynd yn ei flaen a bydd fersiwn newydd ar gael erbyn mis Medi. Yn y fersiwn newydd, mae mwy o gyfleoedd sgwrsio cyffredinol, ymarferion geirfa a llawer mwy o baratoi ar gyfer gwaith darllen, gwylio a gwrando wedi eu hychwanegu. Bydd y newidiadau'n cael eu cyflwyno i diwtoriaid yn ystod yr haf.

# Geirfa

Tybed faint ohonoch chi sy'n defnyddio CorCenCC, corpws y Gymraeg? Mae'n ffynhonnell ddefnyddiol iawn ar gyfer cael hyd i enghreifftiau dilys o iaith. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg wedi bod yn gweithio gyda'r staff ym Mhrifysgol Caerdydd a fuodd yn gyfrifol am CorCennCC ar brosiect i adnabod y 500 gair mwyaf cyffredin yn y corpws a chreu geiriadur. 'Dyn ni'n gwybod mai rhestri moel yw'r adrannau geirfa yn ein llyfrau cwrs ni felly bydd yn gyfle i'r dysgwyr gael mwy o wybodaeth am eiriau unigol. Yn dilyn creu'r rhestr gychwynnol, mae CBAC hefyd yn rhan o'r prosiect bellach ac mae e wedi ehangu i ystyried y rhestri geirfa graidd mae'r arholwyr yn eu defnyddio i osod papurau arholiad. Y bwriad yw diweddaru'r rhestri yn sgil y gwaith ymchwil.

CorCenCC
Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes
National Corpus of Contemporary Welsh

# Cyrsiau Cymraeg yn y Cartref y gwanwyn

Bydd cyrsiau Cymraeg yn y Cartref newydd yn cychwyn yn y gwanwyn.  Bydd y cyrsiau yn addas i rieni a gofalwyr ac yn defnyddio'r atodiad Cymraeg yn y Cartref ar y cyd â'r cwrs Mynediad.  Mae prosiect newydd ar waith i greu cardiau fflach i gyd-fynd â'r cyrsiau Cymraeg yn y Cartref.  Bydd mwy o fanylion i ddilyn.



## Targedu dysgwyr ifanc ym mis Medi

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, bydd y Ganolfan yn cynnal cyrsiau Dysgu Cymraeg am ddim i bobl ifanc rhwng 18-25 oed gan ddechrau ym mis Medi.  Bydd ymgyrch hyrwyddo bwrpasol yn cael ei chynnal er mwyn targedu'r grŵp oedran yma. Byddwn yn ymgynghori gyda ein dysgwyr ifanc presennol er mwyn deall mwy am yr hyn sy'n eu cymell i ddysgu Cymraeg.



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

**Tymor yr Haf 2022**

# Cylchlythyr Tiwtoriaid





# Gair gan Helen

## Croeso!

Mae wedi bod yn gyfnod prysur tu hwnt ers y cylchlythyr diwethaf, gan ddechrau gyda Gŵyl Ddarllen Amdani nôl ym mis Mawrth. 'Dyn ni wedi cael adborth cadarnhaol gan y dysgwyr wnaeth fynychu'r digwyddiadau byw, a chafwyd ymateb rhagorol i'r gystadleuaeth ysgrifennu stori felly diolch i chi am annog eich dysgwyr i gymryd rhan.

Da clywed bod cymaint wedi mwynhau'r teithiau cerdded yng nghwmni Iolo Williams, a 45 dysgwr wedi cael penwythnos i'w gofio yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn dros ŵyl y banc Calan Mai. Yn wir, roedd rhestr aros ar gyfer y teithiau cerdded yn ogystal â'r penwythnos preswyl sy'n dangos bod galw am ddigwyddiadau o'r fath. Roedd cryn fwrlwm yn Eisteddfod yr Urdd, hefyd – llongyfarchiadau i Josh Osborne ac Anna Ng ar ennill Medal y Dysgwyr a Medal Bobi Jones, a diolch o galon i'r criw brwd fu'n cynnal y stondin Dysgu Cymraeg ar y maes.

Ar ôl toriad o ddwy flynedd, bydd yn braf cael dychwelyd i wyliau wyneb yn wyneb unwaith yn rhagor. Mae cymaint o weithgareddau wedi'u trefnu i ddysgwyr ar faes yr Eisteddfod yn Nhregaron, ac mae rhai o'r digwyddiadau wedi eu nodi isod.

'Dyn ni'n mawr obeithio y bydd cynifer o'n dysgwyr â phosib yn dychwelyd i ddysgu ym mis Medi, a 'dyn ni angen eich cymorth i'w denu yn ôl. Unwaith eto eleni, mae côd Cyw Cynnar yn bodoli, a bydd angen i unrhyw ddysgwr cyfredol gofrestru ar eu cwrs nesaf cyn 31 Gorffennaf er mwyn cael gostyngiad o 50%. CYW22 ydy'r côd bydd angen iddynt ei ddefnyddio wrth dalu ar-lein.

Cofiwch am y Gynhadledd Genedlaethol fydd yn cael ei chynnal yn rhithiol ar 24 Mehefin. Gobeithio y cawn ni eich cwmni yno, neu eich gweld mewn ambell ddigwyddiad dros y misoedd nesaf. Dymuniadau gorau i chi dros yr haf ac edrychwn ymlaen at ail gydio yn y dysgu a'r gweithgareddau cefnogi dysgwyr ym mis Medi.

Cofiwch fod pob croeso i chi gysylltu â ni ar marchnata@dysgucymraeg.cymru os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

Diolch yn fawr,

**Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**

# Cynhadledd Flynyddol

Bydd Cynhadledd Flynyddol y Ganolfan yn cael ei chynnal yn rhithiol ddydd Gwener 24 Mehefin a bydd angen cofrestru o flaen llaw trwy ddilyn y ddolen hon. Bydd siaradwyr gwadd diddorol ac ysbrydoledig, gan gynnwys David Thomas, Dysgwr y Flwyddyn, ac Adrian Underhill, sy'n cloi'r gynhadledd drwy esbonio sut medr agwedd tiwtoriaid effeithio ar ddysgwyr. Gobeithio y bydd modd i chi ymuno â ni ac mae croeso i chi e-bostio swyddfa@dysgucymraeg.cymru am ragor o wybodaeth.







# Cylchgrawn Hwyl yr Haf

Mae cylchgrawn Hwyl yr Haf 2022 y Ganolfan wedi ei gyhoeddi ac mae modd gweld copi digidol yma. Bydd copïau caled yn cael eu rhannu mewn digwyddiadau hyrwyddo gan y swyddogion marchnata dros gyfnod yr haf. Mae'r cylchgrawn yn llawn cyfweliadau ac erthyglau difyr yn ôl yr arfer. Am y tro cyntaf eleni, mae tudalen bosau wedi ei chynnwys yn ogystal â chyfle i dri dysgwr ennill cwrs am ddim trwy gymryd rhan mewn cystadleuaeth. Tybed a wnewch chi dynnu sylw eich dysgwyr at y cylchgrawn os gwelwch yn dda?



# Eisteddfod Genedlaethol

Mae rhaglen lawn o weithgareddau wedi'i threfnu ar gyfer Maes D, sef pentref y dysgwyr ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron rhwng 30 Gorffennaf – 6 Awst. Yn y pentref, bydd tipi gyda llwyfan i gynnal digwyddiadau a chwt crefftau drws nesaf i sgwrsio a chreu.

## Dyma rai o uchafbwyntiau Maes D:

- **Dydd Sadwrn 30 Gorffennaf am 4yp**
  Y Cwis Mawr gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Mentrau Iaith Cymru
- **Dydd Sul 31 Gorffennaf am 5yp**
  Gweithdy patisserie gyda Thibault Courtoisier
- **Dydd Sul 31 Gorffennaf am 2yp ac Iau 4 Awst am 5yp**
  Taith gerdded o gwmpas Tregaron gyda Merched y Wawr




- **Dydd Llun 1 Awst am 10:30yb**
  Sesiwn ganu gyda chriw o Ysgol Gerdd Ceredigion
- **Dydd Mawrth 2 Awst am 4yp**
  Sioe 'Mewn Cymeriad' Syr Ifan ab Owen Edwards
- **Dydd Mercher 3 Awst am 12yp Maes D ac am 3yp yn y Pafiliwn**
  Cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn
- **Dydd Mercher 3 Awst am 5yp**
  'Whodunnit'
- **Dydd Iau 4 Awst am 2yp**
  Sean Fletcher, y cyflwynydd, yn sôn am gyfres newydd S4C, Cymru y Dyfodol
- **Dydd Gwener 5 Awst am 2yp**
  Gwenllian Grigg yn holi'r Prif Weinidog, Mark Drakeford
- **Bob dydd, 5yp yn y Cwt Crefft**
  Clwb Paned Maes D



# Cwrs Uwch 1 newydd

’Dyn ni’n falch o fedru dweud y bydd fersiwn newydd o’r Cwrs Uwch 1 ar gael ym mis Medi, ac mae’r Ganolfan yn ddiolchgar i bob tiwtor a gyfrannodd sylwadau yn ystod y broses fireinio. Cafodd pob un sylw ei ystyried a gobeithio y bydd modd i chi weld ôl eich sylwadau yn y fersiwn newydd. Bydd Fersiwn 1 ar gael am un flwyddyn arall, ond dim ond trwy gôd arbennig ar wefan Gwales. Mae’r wybodaeth yma gan y darparwyr.

**Dyma rai o’r prif newidiadau sy wedi eu gwneud i’r Cwrs Uwch 1:**

- **Mwy o sgwrsio cyffredinol**
- **Mwy o baratoi ar gyfer darllen**
- **Mwy o baratoi ar gyfer gwylio a gwrando**
- **Ymarferion geirfa**
- **Cyflwyniadau Pwerbwynt i diwtoriaid**
- **Gweithgareddau WordWall a Kahoot i diwtoriaid**
- **Idiom newydd wedi’i ddylunio gan Huw Aaron ar ddiwedd pob uned**

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar fireinio’r cwrs Sylfaen, felly gobeithio y byddwch chi’r un mor barod i gyfrannu at y gwaith hwnnw.



## Tiwtoriaid Yfory

Fis nesaf, bydd criw o bobl ifanc yn treulio pythefnos yng Nghaerdydd, fel rhan o gynllun Tiwtoriaid Yfory y Ganolfan. Dymuniadau gorau i’r 14 ohonynt gyda’r hyfforddiant, a diolch yn fawr i Dysgu Cymraeg Caerdydd am eu cymorth parod gyda’r trefniadau ymarferol.




# Ymgyrch yr haf

Bydd y Ganolfan yn cynnal ymgyrch farchnata genedlaethol dros yr haf, er mwyn recriwtio pobl ifanc 18-25 oed, sy'n cael dilyn cyrsiau am ddim o fis Medi ymlaen. Bydd gweithgareddau i ddenu dechreuwyr o bob oed i gyrsiau newydd mis Medi hefyd, gyda phris arbennig o £45 am y flwyddyn (bydd angen defnyddio'r côd WELSH22 wrth gofrestru). Bydd y darparwyr hefyd yn rhoi cynnig Cyw Cynnar i ddysgwyr cyfredol, sef gostyngiad 50% ar bris cyrsiau, os yw'r dysgwyr yn cofrestru ar gwrs newydd cyn diwedd Gorffennaf (bydd angen defnyddio'r côd CYW22).





# Hyfforddiant Rhanbarthol mis Medi

Ar ddechrau mis Medi, bydd hyfforddiant rhanbarthol wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal. Byddwn ni'n trafod 'Dychwelyd i'r dosbarth wyneb yn wyneb' a 'Dysgu Uwch 1'. Bydd y manylion ar dudalen Academi yn fuan.